

Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 02 HYDREF 2019, ym MedRus Mawr, Penbryn.

Aelodau â phleidlais: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Dr Hazel Davey; Mr Prysor Davies; Dr Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Dr Rebecca Edwards; Dr Gwion Evans; Dr Patrick Finney; Dr Sarah Higgins; Mr Tomos Ifan, Llywydd UMCA; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Ffion Jones; Mr Chris Loftus; Dr Alex Mangold; Mr David Moyle; Yr Athro Eleri Pryse; Mr Dhan Ramnatsing, Llywydd UMAber; Yr Athro Phillipp Schofield; Miss Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd, UMAber; Dr Victoria Wright; a'r Athro Reyer Zwigelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.

Aelodau heb bleidlais: Yr Athro Simon Cox; a'r Athro Andrew Evans.

Yn gweinyddu: Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd; a Dr Anel Marais.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Simon Banham; Dr Cathryn Charnell-White; Tim Davies; Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth; Yr Athro Nigel Holt; Dr Cerys Jones, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Dr Anoush Simon; and Dr Sarah Wydall.

1. **MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Croeso

Roedd y canlynol yn bresennol yng nghyfarfod y Senedd, naill ai yn gynrychiolwyr newydd eu hethol gan eu hadrannau, neu mewn swyddogaethau newydd:

1. Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi);
2. Prysor Davies, Addysg;
3. Dr Sarah Davies, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear;
4. Dr Rebecca Edwards, aelod o'r staff anacademaidd;
5. Dr Patrick Finney, Gwleidyddiaeth Ryngwladol;
6. Tomos Ifan, Llywydd UMCA, yn aelod o blith y myfyrwyr;
7. Dr Aloysius Igboekwu, Busnes;
8. Chris Loftus, Cyfrifiadureg;

9. Dr Alex Mangold, Ieithoedd Modern;
10. David Moyle, aelod o'r staff anacademaidd;
11. Dhan Ramnatsing, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber), yn aelod o blith y myfyrwyr; a
12. Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMAber, yn aelod o blith y myfyrwyr.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Alun Eirug Davies, cyn Ddirprwy Lyfrgellydd;
2. Anna Evans, a oedd wedi bod yn gweithio gyda Chanolfan y Celfyddydau ar brosiectau cymunedol;
3. David Hides, cyn-Bennaeth ar Fridio Planhigion yng Ngogerddan;
4. Yr Athro William Jeremy Jones, cyn-Bennaeth yr Adran Gemeg;
5. Dr C Roy Lewis, cyn-Bennaeth yr Adran Ddaearyddiaeth; a
6. David Metcalfe, cyn-aelod o staff y Swyddfa Gyllid.

3. Diwrnod Encil

Cynhaliodd y Senedd ddiwrnod encil y bore hwnnw, cyn y cyfarfod ffurfiol. Yn ystod y bore, canolbwyntiwyd ar ddatblygiadau yn y Brifysgol a chyd-destun ehangach addysg uwch. Materion eraill a drafodwyd oedd cynhyrchu Strategaeth Ymchwil, paratodau ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, a blaenoriaethau'r Bwrdd Academaidd am y flwyddyn academaidd i ddod. Byddai copïau o'r holl gyflwyniadau'n cael eu rhoi ar SharePoint er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. **GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

3. **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019 (SEN1920-003).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1920-004).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

5. GOHEBIAETH

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

6. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1920-005).

NODWYD

1. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau; ac adroddiad ynghylch grantiau ymchwil.
2. Llongyfarchodd yr Is-Ganghellor gydweithwyr yn yr adrannau ar berfformiad rhagorol arall yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr (ACF) 2019, a gyhoeddwyd ar 03 Gorffennaf 2019. Roedd bodlonrwydd cyffredinol ymhlith myfyrwyr y Brifysgol yn awr yn 91%. Roedd hyn yn gyflawniad nodedig yn ystod cyfnod heriol wrth i'r sefydliad roi'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC) ar waith.
3. Hefyd, enwyd y Brifysgol yn Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru am 2020 yng nghanllaw prifysgolion da The Times / Sunday Times. Yn y tabl cynghrair penodol hwnnw dringodd y Brifysgol dri phwynt, i safle 45. Llongyfarchwyd cydweithwyr am y cyflawniad hwn hefyd.
4. Wrth i ddiddordeb Llywodraeth San Steffan bylu yn Adolygiad Augar o 'Addysg a Chyllid Ôl-18', holodd yr aelodau am statws y buddiannau disgwylidig i brifysgolion yng Nghymru o ganlyniad i'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn gweithredu argymhellion Adolygiad Diamond ynglŷn â chyllido addysg uwch a threfniadau cyllido myfyrwyr. Dywedwyd wrth yr aelodau bod ansicrwydd ynghylch statws buddiannau disgwylidig Diamond.

7. MEDDYGAETH FILFEDDYGOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) (SEN1920-006).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf am ddatblygiad y cynllun gradd Meddygaeth Filfeddygol (BVetSci) a ddarperir ar y cyd rhwng y Brifysgol a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol. Byddai copi o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 11 Hydref 2019, ynghyd â chynllun busnes diweddaraf y datblygiad.

2. Yn unol â Llawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol, cynhaliwyd ymweliad â safleoedd campysau'r Coleg Milfeddygaeth ym mis Chwefror 2019, i adolygu addasrwydd yr adnoddau i ddarparu tair blynedd (glinigol) olaf y cynllun gradd israddedig ar y cyd. Roedd copi o'r adroddiad safle wedi'i gynnwys ymhlith y papurau i'r Senedd ei ystyried. Yn fuan, byddai'r Coleg Milfeddygaeth yn dod ar ymweliad safle â Phrifysgol Aberystwyth i fodloni eu gofynion sicrwydd ansawdd eu hunain.
3. Yn ystod yr ymweliad safle ym mis Chwefror, nodwyd rhai mân faterion i roi sylw iddynt. Cafodd y materion hynny eu datrys erbyn hyn, ac roedd hyn yn caniatáu symud ymlaen i gam nesaf y drefn ddilysu.
4. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r Coleg Milfeddygaeth ynglŷn â datblygu'r rheoliadau penodol y byddai eu hangen oherwydd statws y rhaglen o fod yn gynllun gradd ar y cyd. Byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Senedd i'w cymeradwyo maes o law, a'r disgwyl oedd y byddent yn defnyddio'r darpariaethau sydd eisoes gan y Coleg Milfeddygaeth o gofio'r profiad sydd ganddynt yn darparu rhaglenni o'r fath.
5. Bydd y rhai sy'n cofrestru am y radd ar y cyd yn cael eu cydnabod yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, ac yn cael eu cefnogi gan yr Undeb Myfyrwyr berthnasol gan ddibynnu ar ba gampws y byddant. Ond, cydnabuwyd efallai y byddai Undeb y Myfyrwyr yn dymuno cael cyfarwyddyd clir gan Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) ynglŷn â'u cymhwysedd i gymryd rhan mewn chwaraeon cystadleuol yn enw'r naill sefydliad neu'r llall.

PENDERFYNWYD

6. Cymeradwyo adroddiad yr ymweliad safle, a chadarnhau'r gweithgareddau cyfredol a fydd yn arwain at ddilysu'r rhaglen radd ar y cyd ym mis Hydref 2019 (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

8. ADRODDIAD O'R BWRDD ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Braddick (SEN1920-007).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 17 Medi 2019. Trafodwyd yr adroddiad yn fanwl gan aelodau'r Senedd.
2. Croesawodd yr aelodau'r ffaith fod yr adroddiad yn cael ei gynnwys ar agenda'r Senedd, ac y byddai'n cael ei wneud yn adroddiad sefydlog mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Daeth y datblygiad hwn i fod o ganlyniad i argymhellion yn adolygiad diweddar AdvanceHE ar Effeithlonrwydd y Llywodraethu yn y Brifysgol, a byddai'n rhoi gwell ymwybyddiaeth i aelodau'r Cyngor - trwy gyfrwng yr adroddiadau sy'n dod iddynt o'r Senedd - ynglŷn â materion academaidd allweddol.
3. Byddai adroddiadau sefydlog tebyg yn cael eu cynnwys ar agendâu'r Senedd ar gyfer pwyllgorau eraill y corff llywodraethu.
4. [Diweddariad ar Ddeddfwriaeth Hygyrchedd](#)

DERBYNIWYD

Adroddiad ar Ddeddfwriaeth Hygyrchedd Digidol (SEN1920-010).

NODWYD

1. Daeth Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 i rym ar 23 Medi 2018. Mae gan y mwyafrif o wefannau sydd eisoes yn bod tan 2020 i gydymffurfio, ac mae gan bob ap tan 2021 i gydymffurfio. Nodai'r adroddiad y camau sy'n cael eu cymryd yn y Brifysgol i ymateb i'r Rheoliadau hyn.
 2. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y ddeddfwriaeth yn gymwys i wefan gyhoeddus y Brifysgol, yn ogystal â rhith-amgylcheddau dysgu, megis Blackboard. Roedd Grŵp Deddfwriaeth Hygyrchedd Gwefan y Brifysgol yn gweithio i sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'r gofynion, ac ar yr un pryd yn ystyried y gofynion a gyflwynwyd gan Safonau'r Gymraeg.
5. Cylchoedd Gorchwyl y Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Braddick, yn ymgorffori diwygiadau a gynigir i gylchoedd gorchwyl (SEN1920-008).

NODWYD

Roedd diwygiadau'n cael eu cynnig i gylchoedd gorchwyl rhai pwyllgorau i adlewyrchu newidiadau diweddar yn y Cod Ansawdd; hefyd gwnaed cynigion i ddiweddarau aelodaeth rhai pwyllgorau, yn bennaf oherwydd bod rhai pwyllgorau wedi eu dileu a chyfrifoldebau wedi'u hailddosbarthu i bwyllgorau eraill.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i Gylchoedd Gorchwyl y Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau, yn amodol ar ddiwygio teitlau swyddi a oedd wedi newid yn ystod yr ad-drefnu (**GWEITHREDU**: Dirprwy Gofrestrydd Kim Braddick).

6. Dyddiadau'r Flwyddyn Academaidd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Braddick (SEN1920-009).

NODWYD

1. Cynigiwyd dau opsiwn gan y Bwrdd Academaidd ar gyfer dyddiadau sesiwn 2021-22 - un yn dechrau ar 20 Medi 2021, a'r llall i ddechrau un wythnos wedi hynny, sef 27 Medi 2021. Roedd dyddiadau arholiadau atodol 2021 eisoes wedi'u trefnu, yn ogystal â dyddiadau'r graddio 2020, (a oedd yn dibynnu ar ddyddiadau Sioe Amaethyddol Cymru). Roedd y dewisiadau felly yn cynnig naill ai dechrau'r sesiwn academaidd ynghynt, neu ddod nôl ynghynt ar ôl gwyliau'r Nadolig a fyddai'n yn golygu llai o amser i farcio arholiadau.
2. Roedd manteision ac anfanteision i'r ddau. Cawsant eu trafod gan yr aelodau. Nodwyd hefyd fod gan rai myfyrwyr ddyddiadau cau neu ddyddiadau cychwyn

hyd yn oed yn gynharach, a gallai'r rhain orgyffwrdd â dechrau'r tymor i'r mwyafrif o'r myfyrwyr ar 20 Medi. Ymhlith y rhai yr effeithir arnynt o ddechrau ynghynt fydd myfyrwyr TAR, myfyrwyr ar gynlluniau uwchraddedig trwy gwrs a fydd angen cyflwyno eu traethodau ymchwil, a'r rhai sy'n dod nôl o flwyddyn dramor.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo mewn egwyddor dechrau sesiwn 2021-22 ar 20 Medi 2021, yn amodol ar allu'r Gofrestrfa Academaidd i ddatrys y problemau ynglŷn â goblygiadau posibl i rai myfyrwyr penodol (**GWEITHREDU:** Dirprwy Gofrestrydd Kim Braddick).

9. ADRODDIAD GAN FWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Judith Shepherd (SEN1920-011).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol ar 20 Medi 2019. Trafodwyd yr adroddiad yn fanwl gan aelodau'r Senedd.

10. AROLWG BLYNYDDOL O EFFEITHLONRWYDD Y SENEDD: YMATEBION I'R AROLYGON

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1920-012).

NODWYD

1. Rhwng 04 a 20 Mehefin 2019, roedd aelodau'r Senedd wedi'u gwahodd i gwblhau holiadur hunanasesu ynglŷn ag effeithlonrwydd y corff llywodraethu yn ystod blwyddyn academaidd 2018-19. Diolchwyd i'r aelodau am yr ymatebion adeiladol a dderbyniwyd, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Cawsant eu trafod gan yr aelodau.
2. Roedd yr aelodau'n fodlon â'r rhaglen ymgynefino a gynigir i aelodau newydd. Ond, ystyriwyd y byddai'n ddefnyddiol rhoi cyfleoedd i drafodaethau anffurfiol. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y Cyngor ar adegau yn cynnal sesiynau anffurfiol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ar faterion penodol sy'n codi, ac y gallai fod yn ddefnyddiol i aelodau'r Senedd gynnal sesiynau o'r fath ymlaen llaw cyn cyfarfodydd y corff llywodraethu academaidd.

PENDERFYNWYD

3. Datblygu rhaglen o sesiynau gwybodaeth anffurfiol i aelodau'r Senedd, i'w cynnal yn syth cyn cyfarfodydd y corff llywodraethu academaidd yn y dyfodol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

11. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Gwobrau Academaidd a ddyfarnwyd yn ystod 2018/19 (SEN1920-014);
2. Grantiau Ymchwil (SEN1920-015); a
3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (SEN1920-016).

NODWYD

4. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ni roddwyd adroddiad i Ysgrifennydd y Brifysgol i'w ystyried gan y Senedd. Pe byddai adroddiad yn cael ei dderbyn, byddai'n cael ei roi ar SharePoint i'r aelodau ei weld.

5. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

12. COFNODION PWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN1920-017):

1. Y Bwrdd Academaidd (17 Medi 2019);
2. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (20 Medi 2019);
3. Y Bwrdd Ymchwil (20 Mai; a 12 Medi 2019);
4. Y Cyngor (28 Mehefin 2019).

NODWYD

7. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

13. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD A BUSNES YN Y DYFODOL

1. Diwrnod Encil y Cyngor

Cafodd aelodau'r Senedd eu gwahodd i gyflwyniad yr Is-Ganghellor ar ddiwrnod encil y Cyngor ar 10 Hydref 2019. Gwnaed hyn yn dilyn argymhelliad yn Adolygiad Effeithlonrwydd Llywodraethu AdvanceHE yn annog y Brifysgol i gynyddu'r ymwneud rhwng y Cyngor a'r Senedd. Anogwyd holl aelodau'r Senedd i fod yn bresennol.